

Ysgol Gyfun Gwynllyw

Annog Ymddygiad Positif.

Nod /Gweledigaeth

Mae safon uchel o ymddygiad, ynghyd â chwarteisi a pharch yn ddisgwyliedig gan bawb. Gyda'n gilydd rhaid i bawb gymryd cyfrifoldeb a sicrhau fod hyn yn bodoli yng nghymuned yr ysgol. Arweinia hyn at amgylchfyd ble mae dysgu ac addysgu effeithiol yn digwydd.

Nid ydym yn derbyn fod unrhyw unigolyn neu grŵp â'r hawl i darfu ar addysg disgyblion eraill na chwaith beryglu diogelwch unrhyw ddisgybl, athro neu oedolion eraill sy'n gweithio yn yr ysgol.

Nodau ac Amcanion

- Darparu amgylchfyd dysgu diogel, ble mae pob disgybl yn medru datblygu i'w llawn botensial
- Meithrin ym mhob disgybl y teimlad o hunan gyfrifoldeb a chyfrifoldeb corfforaethol.
- Hyrwyddo lles emosiynol pob disgybl.
- Datblygu côd moesol lle mae pob disgybl yn gwybod y gwahaniaeth rhwng da a drwg.
- Darparu côd clir a diffiniedig o wobrau a sancsiynau.
- I wneud pob disgybl yn ymwybodol o ganlyniadau ei ymddygiad/hymddygiad.
- Sicrhau fod yr ysgol yn ymwybodol mai'r ymddygiad drwg sy'n annerbyniol, ac nid y disgybl.
- Hyrwyddo a chynnal safon uchel o ymddygiad gan y disgyblion i gyd.
- Hyrwyddo hunan-ddisgyblaeth, parch at eraill ac ystyriaeth o bobl eraill, heb boeni am rywogaeth a/neu anabledd, mewn ffordd gydymdeimladol ac mewn cymuned drefnus.
- I gymhwyso'r polisi hwn yn deg ac yn gyson.

I gefnogi'r amcanion hyn:

Y mae'r polisi hwn yn seiliedig ar ymgynghoriad gyda'r staff, y rhieni a'r disgyblion, ac mae hyn yn hyrwyddo dealltwriaeth a derbyniad gan y gymuned ysgol gyfan.

·Mae'n polisi ysgol yn un positif o ran safbwynt. Cytunwyd ar Gôd Ymddygiad a set o Reolau Ysgol ymarferol a gorfodol. Cefnogir y rhain gan drefniadaeth o gydbwysedd er mwyn gweinyddu gwobrwyon a chosbau i annog ymddygiad da.

Sicrheir cyfathrebu effeithiol o'n polisi drwy gyhoeddi yn rheolaidd wybodaeth sy'n rhoi manylion am ein polisi i'r holl staff, rhieni a disgyblion.

Mae'r sylfaen ar gyfer trefniadaeth dda ac amgylchfyd disgybledig yn agenda a ailadroddir, mae'r staff a'r disgyblion yn gweithio mewn amgylchfyd o barch ar y ddwy ochr. Disgwylir i bob aelod o staff gynnal safon uchel o ddisgyblaeth mewn modd gadarn a theg, gan sicrhau fod y safon uchel o ymddygiad yn cael ei gynnal yn yr ysgol. Bydd yr ysgol yn gweithio mewn partneriaeth agos i gynnal y safonau hyn. Hysbysir y rhieni drwy'r dyddiadur cyswllt, drwy alwad ffôn neu lythr os yw eu plentyn yn achosi pryder oherwydd ei ymddygiad/hymddygiad. Hefyd, gwahoddir rhieni i'r ysgol i gyfarfod aelod o'r tîm bugeiliol os yw'r ymddygiad gwael yn parhau.

Gellir defnyddio nifer o elfennau wrth weithredu disgyblaeth. Bydd y gweithrediadau penodol yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol ond yn dilyn y cyfarwyddiadau manwl fel y nodwyd yn yr adran ar gosbau.

Bydd gweithrediad ein polisi yn cael ei fonitro a'i gyfrifo yn rheolaidd, er mwyn ein galluogi i ddatblygu ac ymateb i'r newidiadau yn anghenion ein hysgol.

Côd Ymddygiad

Mae'r Polisi Ymddygiad yn ceisio creu côd ymddygiad a gefnogir gan gydbwysedd o wobrau a chosbau o fewn naws gymunedol gadarnhaol. Ceir safonau da pan y delir gyda phroblemau ymddygiadol pan maent yn digwydd ac ar y lefel isaf bosib. Mae gan yr athro dosbarth a'r athro pwnc hanfodol swyddogaeth. Mae cyfeirio problemau yn aml at Benaethiaid Blwyddyn ac at yr Uwch Dîm yn lleihau awdurdod yr athro dosbarth ac yn rhoi statws i gamymddwyn. (Gall fod adegau, fodd bynnag pan fo'r cyfeirio yn achos o argyfwng ac yn angenrheidiol).

Mae trefn y polisi sy'n cael ei weinyddu yn seiliedig ar Ddisgyblaeth Bendant.

- Dysgir y disgyblion i ddilyn y rheolau a'r cyfarwyddiadau sefydledig yn gyson ac ar bob achlysur.
- Rhoddir anogaeth a chydabyddiaeth bositif bob tro i'r disgyblion pan maent yn ymddwyn yn addas.
- Mae'r athrawon yn mabwysiadu ymddygiad bositif a phendant wrth ymateb i ddisgyblion fel eu bod yn deall ffiniau a phen draw eu hymddygiad. Bydd disgyblion yn gorfod deall goblygiadau eu gweithrediadau.
- Disgwylir cefnogaeth rhieni wrth gymhwyso'r polisi hwn.
- Bydd cefnogaeth ar gael oddi wrth Penaethiaid Adrannau, Penaethiaid Blwyddyn ac aelodau o'r Uwch Dîm wrth gymhwyso'r polisi hwn.

- Cymhwysir y polisi hwn mewn ffordd deg er mwyn sefydlu amgylchfyd diogel, trefnus a chadarnhaol yn y dosbarth, ble gall dysgu ac addysgu effeithiol ddigwydd.

Y Rheolau Aur :

- I ddangos gofal ac ystyriaeth o eraill ar bob achlysur.
- I siarad yn gwrtais â phawb.
- I fod yn barod i ddeall safbwyntiau pobl eraill.
- I gofio fod ymddwyn yn y dosbarth yn caniatáu i bob unigolyn ddysgu ac athrawon i addysgu.
- I wisgo’r wisg ysgol gywir ar bob achlysur.
- I symud yn ysgafn a thawel o gwmpas yr ysgol.
- I gofio, pan allan o’r ysgol, fod enw da Gwynllyw yn dibynnu ar sut mae pawb yn ymddwyn.
- I gadw fy nhraed a’n dwylo i fy hun ar bob achlysur

Cyfamod Dosbarth ar gyfer disgyblion a staff yn seiliedig ar Gynhadledd y

Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn, 1989

Mae gennyf yr hawl

- i gael fy nhrin gyda pharch a charedigrwydd. Mae hyn yn golygu na fydd neb yn chwerthin ar fy mhen, yn fy anwybyddu, nac yn anwybyddu fy nheimpladau.

Mae gennyf yr hawl

- i fod yn unigolyn yn yr ystafell hon. Mae hyn yn golygu na fydd neb yn fy nhrin yn annheg oherwydd fy nghredoau, hil, diddordebau, na’r ffordd dwi’n edrych.

Mae gennyf yr hawl

- i fod yn ddiogel yn yr ystafell hon. Mae hyn yn golygu na fydd neb yn fy nharo, fy nghicio, fy ngwthio na gwneud dolur i mi mewn unrhyw ffordd.

Mae gennyf yr hawl

- I ddysgu heb gael fy nharfu heb ymyrraeth oddi wrth ddisgyblion eraill.

Mae gennyf yr hawl

- I gael fy ngwerthfawrogi a’m mharchu am fy nghryfderau a’m gwendidau.

Mae’n ddyletswydd arnaf I barchu hawliau pobl eraill.

Ymddygiad yn y Dosbarth – Ein Disgwyliadau

- Ewch i'ch ystafell ddosbarth yn brydlon ac arhoswch mewn llinell drefnus hyd nes i'r athro/athrawes gyrraedd.
- Ewch i mewn i'r dosbarth yn dawel a threfnwch eich hunan ar gyfer dechrau'r wers. Dylid rhoi bagiau ar y llawr.
- Sicrhewch fod eich gwisg ysgol yn gywir a'i fod yn ufuddhau i'r polisi gwisg ysgol.
- Dangoswch barch tuag at yr athro/athrawes ac i'r holl ddisgyblion yn y dosbarth.
- Gwrandewch yn ofalus ar eich athro/athrawes a dilynwch gyfarwyddiadau drwy gydol y wers.
- Codwch eich llaw ac arhoswch amymateb yr athro cyn ateb cwestiwn.
- **Ni chaniateir bwyta, yfed na chnoi gwm yn ystod gwersi.**
- Os daw ymwelydd i mewn i'ch dosbarth, dylech sefyll er mwyn dangos parch.
- Peidiwch ag amharu ar addysg eraill.
- Gweithiwch yn ddiwyd drwy gydol y wers a sicrhewch fod gwaith cartref yn cael ei gyflwyno yn brydlon .
- Ar ddiwedd pob gwers, gadewch y dosbarth mewn ffordd drefnus, yn ôl cyfarwyddid yr athro/athrawes a cherddwch ar ochr chwith y coridor.

Ymddygiad yn y coridorau – Ein Disgwyliadau

Cerddwch – peidiwch â rhedeg.

Cadwch i'r chwith.

Peidiwch â gwthio.

Cymerwch ofal gyda'ch bagiau.

Cwrteisi bob tro.

Symudwch yn dawel o gwmpas yr Ysgol.

Cosbau

Disgwylir i bob disgybl lynu at y rheolau ysgol a chyflwyno eu hunain yn briodol ac ymddwyn yn briodol ym mhob gwers. Ein nod yw sicrhau fod disgyblion a rhieni yn deall goblygiadau ymddygiad amhriodol yn y dosbarth ac yn ymwybodol o'r strtegaeth a amlinellir isod. Ymhob dosbarth fe arddangosir yn glir boster "Ein Dewis Ni" sy'n cyfeirio at y camau yn y broses.

Cam 1	Yr athro/athrawes dosbarth yn atgoffa'r disgybl o reolau'r ystafell ddosbarth. Rhybudd a nodyn yn y Llyfr Cyswllt. Cofnod ar SIMS (sustem weinyddol)
Cam 2	Yr athro/athrawes dosbarth yn atgoffa'r disgybl o reolau'r ystafell ddosbarth. Cosb gan yr athro. Nodyn yn y Llyfr Cyswllt. Cofnod ar SIMS (sustem weinyddol). Y Pennaeth Adran yn atgyfnerthu neges yr athro pwnc.
Cam 3	CAM A: Cosb Adrannol. Yr adran i anfon llythyr ffurfiol adref. Cofnod ar SIMS (sustem weinyddol). Y Pennaeth Adran i drosglwyddo'r mater i'r Pennaeth Blwyddyn. CAM B: Os yn parhau - Y Pennaeth Blwyddyn i gwrdd a'r rhieni.
Cam 4	Y Pennaeth Blwyddyn i ddelio â'r disgybl. Cyfarfod ffurfiol gyda'r rhieni. Cyfnod o ddiarddeliad mewnol.
Cam 5	Y Pennaeth Blwyddyn yn trosglwyddo'r disgybl i'r Dirprwy Bugeiliol. Cyfnod o ddiarddeliad mewnol. Cyfarfod ffurfiol gyda'r rhieni.
Cam 6	Diarddeliad dros dro / Diarddeliad parhaol. Cyfarfod ffurfiol rhwng y rhieni, y Pennaeth Blwyddyn, y Dirprwy Bugeiliol a'r Pennaeth.
ARGYFWNG	Mewn argyfwng, yr athro/athrawes yn ffonio'r swyddfa. Bydd y disgybl yn cael ei hebrwng o'r dosbarth gan aelod o'r Tîm Bugeiliol. Y Ganolfan Gylchdroi. Cyfarfod ffurfiol gyda'r rhieni. SIMS

Y Ganolfan Gylchdroi Ymddygiad

Mewn cytundeb gyda Chanllawiau Cynulliad Cymru ar “Opsionau arall i Ddiarddeliadau” (adran 5.1.C), mae’r ysgol yn darparu cyfleuster diarddeliad mewnol. Lleolir yr Uned Ynysu Diarddeliad Fewnol “Y Ganolfan Gylchdroi Ymddygiad” ym mhrif adeilad yr ysgol.

Cefndir

Defnyddir yr Uned Ynysu Fewnol gyda disgyblion sydd wedi gwneud rhywbeth difrifol o ran ymddygiad ac a fyddai, yn y gorffennol wedi cael diarddeliad amser- penodol- o rhwng un a phum diwrnod. Ni fydd ynysiad mewnol amser-penodol yn cymryd lle diarddeliad amser-penodol o’r ysgol ym mhob achos a ble mae’r ysgol yn teimlo ei fod yn addas; gall disgybl dderbyn diarddeliad cymysg. Gyda diarddeliad cymysg rhan o’r diarddeliad fydd cyfnod amser-benodedig i’w gyflawni tu allan i’r ysgol ond bydd y disgybl yn cwblhau cyfnod o amser yn Y Ganolfan Gylchdroi Ymddygiad cyn dychwelyd i wersi ar brif safle’r ysgol.

Cysylltir â rhieni ar y ffôn ac ar ffurf llythyr ynglyn â rhoi unrhyw ddisgybl yn y Ganolfan Gylchdroi Ymddygiad

Mae’r Ganolfan Gylchdroi Ymddygiad yn gyfleuster llawn amser gyda strwythur staffio sy’n cynnwys aelodau o’r staff a chynorthwydd dysgu. Mae’r staff yn meddu ar sgiliau o safon uchel ac yn cymhwyso yn gyson arferion y Ganolfan Gylchdroi Ymddygiad.

Gellir monitro pob gweithgarwch yn y Ganolfan Gylchdroi Ymddygiad ar sgrîn; cctv hysbysebiri recordiadau a bydd botwm argyfwng sydd wedi ei gysylltu â’r brif swyddfa yn ei le rhag ofn bod argyfwng.

Canolfan Cylchdroi Ymddygiad : Beth fydd y disgyblion yn ei wneud?

- Bydd rhaid i ddisgyblion gwblhau ymarfer ysgrifenedig lle gallant adfyfrio ar eu hymddygiad ac am y rhesymau y maent yn y Ganolfan Gylchdroi Ymddygiad a beth gallent wedi ei wneud yn wahanol fel na fyddai cosb wedi eu rhoi iddynt.
- Bydd rhaid i ddisgyblion gwblhau uned olaf o waith sy’n rhoi’r cyfle iddynt gynllunio sut y byddant yn ymddwyn yn y dyfodol er mwyn osgoi ail ymweliad â’r Ganolfan Gylchdroi Ymddygiad. Dylai disgyblion adael y Ganolfan Gylchdroi Ymddygiad gyda 2-3 o dargedau a fydd yn cael eu cadarnhau yn eu cyfarfod ail-integreiddio.
- Bydd gwaith adfyfrio a gwaith cynllunio’r disgyblion yn cael ei roi yn eu cyfarfod ail-integreiddio gyda’r Prifathro, y Pennaeth Gofal Bugeiliol, y Pennaeth Blwyddyn a’r rhieni.
- Bydd disgyblion yn cwblhau gwaith yn y pynciau craidd ac anghraidd ynghyd ag ymarferion ar ymddygiad cymdeithasol ac emosiynol. Cesglir gwaith oddi wrth Benaethiaid Adrannau a bydd athrawon pynciol yn sicrhau fod digon o waith ar gael.

- Ar gyfer disgyblion gydag anghenion addysgol ychwanegol sydd angen mynychu'r Ganolfan Gylchdroi Ymddygiad, bydd yr amser a dreulir yno wedi ei deilwra ar gyfer anghenion penodol pob plentyn ac yn cael ei arwain gan y CAAY. Bydd y CAAY yn gwneud y trefniadau pwrpasol ar gyfer yr unigolion a bydd cymorth ychwanegol ar gael.

Mewn achosion pan mae gan ddisgyblion gynorthwydd dosbarth, ni fydd yr aelod o staff yn mynychu'r Ganolfan Gylchdroi Ymddygiad. Byddant yn hebrwng y disgybl, a'u setlo os oes angen, neu am resymau iechyd a diogelwch, ac ond ar gael i ganmol, ac i gefnogi yn ystod cynodau o egwyl, neu er mwyn setlo'r disgybl i fod ar nôl ar dasg.

Canolfan Cylchdroi Ymddygiad : Amserlen Ddyddiol:

Amser cyrraedd:

Dylai disgyblion gyrraedd erbyn 8.50yb a mynd at yr aelod o staff perthnasol.

Bydd disgyblion yn cwblhau 5 awr cyfwerth o (waith) gwersi yn ystod eu diwrnod yn y Ganolfan Gylchdroi Ymddygiad .

Bydd yr oriau yn dilyn yn fras amser y gwersi y byddent wedi eu mynychu petaent yn yr ysgol, ond bydd amserau egwyl a chinio yn wahanol.

Egwyl bore: Yn wahanol i weddill y disgyblion.

Amser Cinio: Amser gwahanol i weddill y disgyblion –Rhaid i bob disgybl ddod â phecyn bwyd. (Bydd y rhai hynny sy'n gymwys ac yn hawlio cinio ysgol am ddim yn derbyn pecyn bwyd o'r ysgol.)

Ni does hawl gan y disgyblion i adael y Ganolfan Gylchdroi Ymddygiad yn ystod y diwrnod ysgol.

Y Ganolfan Gylchdroi Ymddygiad : Expectations of pupils:

- Wrth ddod i mewn i'r Ganolfan Gylchdroi Ymddygiad :
- Dylid diffodd unrhyw offer electronig a'i roi i'r aelod o staff.
- Rhoddir blwch/ardal astudio i bob disgybl.
- Cwblheir y gwaith I gyd mewn tawelwch yn Y Ganolfan Gylchdroi Ymddygiad.
- Dim bwyta nac yfed. Dywedir wrth y disgyblion pryd mae eu hamserau egwyl a chinio.
- Ni does hawl gan y disgyblion i fynd i'r tŷ bach heb ganiatad yr aelod o staff.
- Ni all y disgyblion ddychwelyd i wersi ar brif safle'r ysgol tan iddynt gwblhau yn foddhaol eu hamser yn Y Ganolfan Gylchdroi Ymddygiad ac wedi mynychu cyfarfod ail-integreiddio gyda'r Prifathro, y Pennaeth Gofal Bugeiliol a'r Pennaeth Blwyddyn.

Disgyblion fydd yn methu mynychu'r Ganolfan Gylchdroi Ymddygiad :

Bydd unrhyw ddisgybl sydd wedi methu mynychu'r i'r Ganolfan Gylchdroi Ymddygiad pan mae lleoliad wedi ei drefnu yn cael ei nodi fel absenoldeb heb ganiatad. Ni fyddant yn cael dilyn eu hamserlen arferol ar brif safle'r ysgol hyd nes fod y cyfnod o ynysiad mewnol wedi ei gwblhau.

Disgyblion sy'n methu cwrdd â disgwyliadau tra'u bod yn Y Ganolfan Gylchdroi Ymddygiad /neu sy'n gwrthod mynychu'r Ganolfan Gylchdroi Ymddygiad .

Pan mae disgyblion yn methu cwrdd â disgwyliadau yn y Ganolfan Gylchdroi Ymddygiad ac/neu yn gwrthod mynd i'r Ganolfan Gylchdroi Ymddygiad, cysylltir â'u rhieni/gwarcheidwaid a gofynnir iddynt ddod i gasglu eu mab neu eu merch. Mae gan yr ysgol hawl i wyrdroi hyn i ddiarddeliad amser-penodedig, am eu bod wedi methu gwneud yr ynysiad mewnol yn foddhaol. Dilynnir cyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru ar "Diarddeliadau o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Plant." Dilynnir Cylchlythr 001/2004 os bydd sefyllfa fel hon yn codi.

Mewn digwyddiadau o ymddygiad gwael difrifol, neu ymddygiad gwael parhaol, bydd y Swyddog Cynhwysiad Ysgol yn ymyrryd. Yn y pen draw, gellid cyfeirio'r plentyn at uned yr UCP (PRU unit) yn Nhorfaen, neu unedau tebyg mewn awdurdodau eraill. Rhoddir gwybod i Gadeirydd y Llywodraethwyr pan fydd plentyn yn derbyn Diarddeliad Amser Penodedig neu Ddiarddeliad Parhaol. Bydd Is-Bwyllgor Disgyblaeth y Corff Llywodraethol ynghlwm â gwrandawiadau apeliadau Diarddeliadau Amser Penodedig o chwe niwrnod neu fwy.

Gorffennaf, 2015